# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-2018



| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad** 1

**1.1 Trosolwg** 2

Rhagair y Prif Arolygydd 2
Blwyddlyfr gweithgareddau 4
Diben a gweithgareddau'r sefydliad 5
Crynodeb o berfformiad 5

**1.2 Dadansoddi perfformiad** 8

Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru 8

Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru 18

Amcan Strategol 3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru 23

Egwyddor Cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol' 26

Egwyddor Cyflawni 2: Cydweithio ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant 34

**Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd** 36

**2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol** 37

Adroddiad y Cyfarwyddwr 37
Y datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifyddu 39
Y datganiad llywodraethu 40

**2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff** 47

**2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio** 55

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn 55

**Adran 3: Datganiadau ariannol** 58

3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr 59
3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol 60
3.3 Datganiad ar lifoedd arian 61
3.4 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 62
3.5 Nodiadau i gyfrifon adnoddau adrannol 63

**Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** 75

# Adran 1
# Yr Adroddiad Perfformiad



# Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad

## 1.1 Trosolwg

### Rhagair y Prif Arolygydd



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am flwyddyn Estyn, sydd wedi cynnwys:

- Rhoi trefniadau arolygu newydd ar waith ar draws y rhan fwyaf o'r sectorau rydym yn eu harolygu o fis Medi 2017 ac arbrofi â threfniadau arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol a Chymraeg i Oedolion
- Cynorthwyo a chynghori Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar ddiwygio addysg, addysg ôl-orfodol a diwygio hyfforddiant, a diwygio addysg gychwynnol i athrawon
- Cyhoeddi a hyrwyddo ein hadroddiadau arolwg thematig a'm Hadroddiad Blynyddol ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- Helpu meithrin gallu a hyrwyddo gwelliant, gan gynnwys rhannu arfer effeithiol a chefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg a hyfforddiant trwy ein rhaglen hyfforddi ar gyfer arolygwyr cymheiriaid

Hefyd, mae'r adroddiad yn egluro ehangder cydweithio a wneir gyda'n sefydliadau partner.


Bu'n flwyddyn heriol ond llwyddiannus o ran cyflawni ein swyddogaethau statudol, cyflwyno ein trefniadau arolygu newydd a pharhau â'n gwaith cymorth ar gyfer diwygio addysg – i gyd yn erbyn cefndir o gyfyngiadau cyllidebol.

Rydw i'n falch o arwain sefydliad sy'n parhau i fod â staff hynod ymgysylltiedig, sydd wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i'n rhanddeiliaid, sy'n darparu atebolrwydd cyhoeddus ac yn cefnogi gwelliant.

Diolchaf i gydweithwyr am gyflwyno ein gwaith yn broffesiynol ac yn effeithlon trwy gydol y flwyddyn ac am fynd ati i gyflawni pob her a oedd yn ein hwynebu.

Fy uchelgais ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd datblygu galluoedd Estyn ymhellach i gyflawni ein hamcanion strategol a chyflawni'r heriau newydd sy'n deillio o 'Arolygiaeth dysgu', sef

yr adolygiad annibynnol o Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2018.

# Blwyddlyfr gweithgareddau

## Haf 2017

- Arolygu ysgolion uwchradd ffederal cyntaf Cymru (Ysgol Bryngwyn, Llanelli ac Ysgol Glan-y-Mor, Porth Tywyn)
- Cyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol ar y Trefniadau Arolygu Newydd (TAN)
- Arddangos ar y cyd ag arolygiaethau eraill yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, ac arddangos yn Eisteddfod yr Urdd, Pencoed â chyrff arolygu eraill
- 'Cynigion' arolygu, gan gynnwys holiaduron newydd ar gyfer staff a llywodraethwyr ysgol

## Hydref 2017

- Dechrau arolygiadau o dan y Trefniadau Arolygu Newydd, gyda llai o gyfnod rhybudd
- Cwblhaodd pedwar tîm o staff o Estyn Her Beicio Llwybr Taf, gan godi dros £4,000 ar gyfer Tŷ Hafan
- Lansio tudalen Facebook Estyn
- Arbrofi â threfniant arolygu newydd ar gyfer Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol mewn dau awdurdod
- Cynnal Noson Gwobrau Estyn – gan gydnabod 34 o ddarparwyr a gyflawnodd farnau rhagorol yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17
- Asesu yn unol â'r Safon Iechyd Corfforaethol – dyfarnwyd Lefel Arian
- Cynhadledd staff flynyddol 'Gyda'n gilydd tuag at yfory' wedi'i threfnu gan staff

## Gwanwyn 2018

- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol PAEM
- Cynnal ein Digwyddiad Rhanddeiliaid Cenedlaethol yn Llandrindod
- Ymweld ag OECD (Paris) i drafod datblygu fframwaith hunanarfarnu cenedlaethol newydd
- Asesu yn unol â Safon y Ddraig Werdd – dyfarnwyd Lefel 3
- Arbrofi â'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion
- Cynnal adolygiad annibynnol o Estyn gan yr Athro Graham Donaldson

## Diben a gweithgareddau'r sefydliad

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Mae tîm rheoli a staff gwasanaethau corfforaethol Estyn yn gweithio yn ein swyddfa sydd wedi'i lleoli yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd. Mae ein Harolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) yn gweithio gartref. Rydym yn ychwanegu at ein gallu arolygu mewnol trwy gyflogi secondeion o ddarparwyr addysg a hyfforddiant. Hefyd, rydym yn hyfforddi ac yn contractio gydag Arolygwyr Ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd), ymgynghorwyr her, arolygwyr lleyg ac enwebeion (sy'n gweithio fel cynrychiolydd y darparwr) i weithio fel rhan o dimau arolygu.

Mae ein strwythur sefydliadol ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn cyflogi Rheolwr Prosiect Arolygu Cymru ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel rhan o Arolygu Cymru, sef menter ar y cyd rhwng y pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru.

Mae trosolwg strategol sy'n amlinellu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ynghyd â'n tri amcan strategol a'n dwy egwyddor cyflawni, ar gael ar ein gwefan.

Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r gwaith a wnawn mewn perthynas ag arolygiadau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant, darparu cyngor ac arweiniad, meithrin gallu a lledaenu arfer orau, a gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill, cyrff addysg a rhanddeiliaid.

## Crynodeb o berfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol am y flwyddyn sy'n cefnogi cyflawni ein cenhadaeth, ein hamcanion ac yn adlewyrchu egwyddorion cyflawni Estyn. Caiff cyflawniad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad ei fonitro bob chwarter gan Fwrdd Strategaeth Estyn, a chyhoeddir y canlyniadau trwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan yma. Bob blwyddyn, caiff ein targedau perfformiad eu haddasu i bwysleisio datblygiad parhaus. Yn 2017-2018, fe wnaethom gyflawni'r mwyafrif o'n dangosyddion perfformiad. Lle na chyflawnwyd y targed perfformiad yn llawn, rydym wedi rhoi esboniad yn ein hadroddiad naratif ar gyfer pob dangosydd perfformiad. Mae'r crynodeb hwn o berfformiad yn amlygu nifer o fesurau perfformiad a dangosyddion perfformiad a gyhoeddir yn ein Cynllun Blynyddol.



Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

- Cwblhawyd 345 o arolygiadau, gan gynnwys 175 o arolygiadau o dan ein fframwaith arolygu newydd
- Mae angen arolygiadau dilynol ar 26% o ddarparwyr a arolygwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu ysgogi gwelliant (3% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol)
- Cyhoeddwyd 100% o adroddiadau arolygu o fewn y terfynau amser (DP 4)
- Nododd 1 darparwr yn unig ei fod yn anfodlon â dibynadwyedd ac annibyniaeth barnau Estyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu (DP 3a)
- Nododd 1% o ddarparwyr yn unig na wnaeth eu harolygiad eu helpu i gynllunio ar gyfer gwella

Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

- Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol PAEM ym mis Ionawr 2018, yn unol â'r amserlen (DP 5)
- Cyhoeddwyd pob un o'r 13 adroddiad thematig – gan wneud 83 o argymhellion i gyd (DP 6)
- Rhoddwyd cyngor i Lywodraeth Cymru trwy gymryd rhan mewn dros 40 o bwyllgorau a grwpiau cynghori, gan gynnwys i gefnogi diwygio'r cwricwlwm

Amcan Strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

- Cyhoeddwyd 64 o astudiaethau achos arfer orau
- Cynhaliwyd 28 o ddigwyddiadau hyfforddi ac 18 o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac arfer orau
- Fe wnaeth 98% o gynrychiolwyr raddio ein hyfforddiant fel da neu ragorol

Egwyddor Cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'

Cyflawnwyd lefelau uchel o ran ymgysylltiad staff – cynyddodd ein sgôr ymgysylltu yn Arolwg blynyddol Pobl y Gwasanaeth Sifil o 76% i 78%. Fe wnaethom gyflawni'r ail sgôr uchaf o blith 98 o sefydliadau'r gwasanaeth sifil. (DP 10)

Wedi cael achrediad lefel 3 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Cwblhawyd yr holl gwynion a cheisiadau am wybodaeth (a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data) o fewn graddfeydd amser targed

Wedi cael achrediad lefel Arian y Safon Iechyd Corfforaethol

Egwyddor Cyflawni 2: Cydweithio ag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid eraill i gefnogi gwelliant

Cynhaliwyd naw o arolygiadau, ymchwiliadau arbennig ac adolygiadau thematig ar y cyd gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r DU (DP 19a)

Ymgysylltu yn ystod y flwyddyn â chorff cynrychioliadol ar gyfer pob sector yr ydym yn ei arolygu (DP 19b)

Buom yn gweithio gydag 17 o sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg i gynhyrchu adnoddau ar y cyd i helpu lleihau baich gwaith athrawon

# Amcan Strategol 1:

## Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn cael eu harolygu o leiaf unwaith mewn cylch; mae'r cylch arolygu presennol yn gyfnod o saith mlynedd a ddechreuodd ym mis Medi 2016.

Rydym yn cyhoeddi fframweithiau ac arweiniad clir, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n amlygu'r hyn y mae arolygwyr yn edrych arno yn ystod arolygiadau a sut bydd darparwyr yn cael eu harfarnu. Mae fframwaith arolygu cyffredin yn berthnasol i bob sector rydym yn ei arolygu, heblaw gwasanaethau addysg llywodraeth leol a lleoliadau nas cynhelir, ac mae ar gael ar ein gwefan.

**Trefniadau arolygu newydd**

O fis Medi 2017, mae pob arolygiad ysgol wedi cael ei gwblhau o dan ein trefniadau arolygu newydd (TAN).

Yn ogystal â hyfforddi ein staff, fe wnaethom gynnal saith digwyddiad hyfforddi amlsector ledled Cymru i ddarparu hyfforddiant i arolygwyr allanol ar y trefniadau newydd. Roedd bron pob un o'r cynrychiolwyr yn fodlon iawn â'r hyfforddiant, ac roedd bron pob sylw a gafwyd trwy holiaduron yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant ac am y TAN.

> 'A dweud y gwir, pe bai pob cwrs yn cael ei gynnal fel hyn, byddai'r proffesiwn addysgu'n well o lawer'

> 'Roedd y cwrs yn rhagorol, yn fy marn i. Roedd rhediad da iddo, gan ganiatáu ar gyfer trafodaethau a chwestiynau. Roeddwn i'n teimlo'n barod ar gyfer arolygiad yn dilyn y TAN.'


O dan y TAN, mae ein harolygiadau'n dechrau â hunanarfarniad darparwr, ac mae cynnydd a phrofiadau dysgwyr yn parhau i fod yn ganolog i'r hyn rydym yn ei arolygu. Rydym wedi ehangu ein dulliau arolygu ac wedi egluro'r meddylfryd y dylai arolygwyr ei ddilyn mewn arolygiadau:

- ✓ Bydd arolygwyr yn arolygu gyda **meddylfryd cadarnhaol** i sicrhau mai dyma'r **profiad dysgu proffesiynol** gorau posibl ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- ✓ Bydd arolygwyr yn defnyddio **dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr** o arolygu
- ✓ Bydd arolygwyr bob amser yn **canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu**
- ✓ Bydd arolygwyr yn chwilio am **arfer arloesol dra ystyriol**
- ✓ Bydd arolygwyr yn **teilwra gweithgareddau'r arolygiad** yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, a byddant yn chwim ac ymatebol wrth ddefnyddio **ystod gynyddol yr offer a'r dulliau arolygu** sydd ar gael
- ✓ Dylai arolygwyr ystyried popeth yn y fframwaith arolygu newydd, ond dylent **adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol** ar gyfer pob darparwr

Mae ein harolygwyr wedi parhau i adrodd heb ofn na ffafriaeth, ond mae'n bwysig ein bod yn ceisio gwneud y profiad arolygu mor gadarnhaol ag y bo modd i staff, arweinwyr a rheolwyr; maent yn llawer mwy tebygol o ddeall a gweithredu yn unol â chanfyddiadau'r tîm arolygu pan fydd holi a thrafodaethau'n benagored, yn deillio o ddisgwyliadau cadarnhaol ac yn cefnogi deialog broffesiynol a pharchus ar y ddwy ochr rhwng aelodau o'r darparwr a'r tîm arolygu.

Rhwng Medi 2017 a Mawrth 2018, fe wnaethom arolygu 175 o ddarparwyr o dan y trefniadau newydd. At ei gilydd, bu'r adborth ffurfiol ac anffurfiol yn gadarnhaol, a nododd darparwyr a arolygwyd fod arolygiadau'n drylwyr a bod arolygwyr yn deall yr ysgol/y darparwr yn gyflym; a mynegodd darparwyr '***nad oes unrhyw le i guddio***' a bod y broses yn gefnogol gydag arolygwyr '***yn gwneud eu gwaith yn dda'.***

**Sut gwnaethom newid arolygiadau o fis Medi 2017**



## Rhaglen arolygiadau craidd

### Arolygiadau Craidd Estyn yn ôl sector 2017 - 2018

| Sector | Nifer yn y Cynllun Blynyddol | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 90 | 90 |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir | 196 | 196 |
| Ysgolion uwchradd | 28 | 28 |
| Ysgolion pob oed | 3 | 3 |
| Ysgolion arbennig<br>* Arolygiad wedi'i ychwanegu at y rhaglen arolygiadau yn y flwyddyn | 4 | 5 |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 3 | 3 |
| Ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol<br>* Caewyd dwy ysgol ar fyr rybudd, ac roedd un ysgol yn cael ei newid yn sylweddol, felly cynhaliwyd ymweliad monitro blynyddol yn lle. | 14 | 11 |
| Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol<br>Dau arolygiad peilot ac un gynhadledd wella | 3 | 3 |
| Darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) | 3 | 3 |
| Sefydliadau addysg bellach<br>Gohiriwyd un arolygiad er mwyn ei gynnal fel peilot y TAN ym mis Ebrill 2018. | 3 | 2 |
| Cymraeg i Oedolion<br>Arolygiad peilot. | 1 | 1 |
| Cyfanswm nifer yr arolygiadau | 348 | 345 |

**Gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL)**

Yn ogystal â'r 'cynadleddau gwella' ar gyfer Sir Benfro a Phowys a beilotwyd yng Ngwanwyn 2017, fe wnaethom gynnal cynhadledd wella arall ar gyfer Wrecsam yng Ngwanwyn 2017, a fynychwyd gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig o'r awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, y consortiwm rhanbarthol a sefydliadau perthnasol eraill. Lluniodd pob un o'r tri awdurdod gynllun gweithredu cytûn ar gyfer gwella.

Yn ystod gwanwyn a haf 2018, ailymwelodd Estyn â phob un o'r awdurdodau lleol hyn i adolygu eu cynnydd. Bydd disgwyl i bob awdurdod amlinellu pa gamau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion, ac yn bwysig, beth fu effaith y camau hyn hyd yma. Bydd Estyn yn ysgrifennu at Brif Weithredwr pob awdurdod ar ôl y gynhadledd i amlinellu barn Estyn am y cynnydd a wnaed.

Hefyd, yn ystod 2017-2018, fe wnaethom gynnal dau arolygiad peilot ar gyfer y fframwaith newydd i arolygu GALIL, ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych. Byddwn yn adolygu a thrafod gwelliannau i'r fframwaith a'r trefniadau arolygu gyda'n grŵp ymgynghori rhanddeiliaid GALIL, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a'r consortia rhanbarthol, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

Trwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gynnal gweithgarwch arolygu arall trwy ein rhaglen ymweliadau arolygwyr cyswllt ag awdurdodau, yn ogystal â chasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiadau cylch gwaith thematig.

**Addysg gychwynnol athrawon (AGA)**

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnydd da yn ein gwaith gyda rhanddeiliaid allanol i gefnogi diwygio AGA, ac o ran datblygu gweithdrefnau a dogfennau ar gyfer trefniadau arolygu AGA yn y dyfodol. Roedd ein gwaith diwygio yn cynnwys cefnogi'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon (TEAB); gan gynnwys llunio memorandwm dealltwriaeth gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA), sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch ymweliadau achredu.

Fe wnaethom fynychu pob un o'r chwe digwyddiad achredu (rhwng Ionawr ac Ebrill 2018) gyda'r TEAB. Fe wnaethom ddefnyddio gwybodaeth Estyn am ddarparwyr AGA yn llwyddiannus i gyfrannu at y digwyddiadau hyn. Mae adborth gan CGA a TEAB wedi bod yn gadarnhaol am gyfraniadau Estyn. Fe wnaethom gyfarfod â Llywodraeth Cymru a CGA hefyd i ddrafftio ffyrdd ymlaen yn dilyn y deilliannau achredu.

Hefyd, fe wnaethom gefnogi grŵp cynghori Llywodraeth Cymru, sef y Bwrdd Cynghori a Recriwtio Athrawon (TRRAB). Bydd y bwrdd yn llywio meysydd allweddol o ddatblygu polisïau ar gynllunio'r gweithlu a bydd yn rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar gynnydd parhaus o ran diwygio AGA ac yn cefnogi'r gweithlu addysgu presennol, gan ystyried arfer ragorol mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

Ym mis Hydref 2017, fe wnaethom gynnal digwyddiad i randdeiliaid yng Nghanolbarth Cymru. Diben y digwyddiad oedd:

- rhoi cyfle i randdeiliaid gyfrannu at ddatblygu'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer AGA
- rhannu canfyddiadau ein harolwg o arfer effeithiol mewn AGA

Mynychwyd y digwyddiad gan nifer dda iawn, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o brifysgolion a'u hysgolion partner, cynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau o TEAB. Roedd lefel yr ymgysylltu yn uchel iawn, a gwnaeth cynrychiolwyr sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd a ddarparwyd iddynt gymryd rhan mewn deialog gydag ystod eang o randdeiliaid am ddiwygio AGA. Roedd y digwyddiad yn dda neu'n rhagorol, yn ôl arfarniad pob cynrychiolydd. Mae mwy o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol, a bwriedir i hyn ymddangos yng nghalendr y sector bob blwyddyn.

Yn ystod 2018-2019, byddwn yn ysgrifennu'r fframwaith a'r arweiniad ar gyfer y trefniadau arolygu newydd mewn AGA ac yn creu cynllun amlinellol ar gyfer y cylch nesaf o arolygiadau mewn AGA, gan gynnwys arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro.

**Cymraeg i Oedolion**

O ganlyniad i ad-drefnu cenedlaethol yn y sector Cymraeg i Oedolion, ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau er 2014-2015 er mwyn rhoi amser i'r strwythurau newydd ymgorffori'n llawn. Ym mis Mehefin 2017, fe wnaethom gyhoeddi arolwg thematig i ddarparu adroddiad interim ar effeithiolrwydd ac effaith y trefniadau newydd hyn ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Fe wnaethom ddefnyddio'r arolwg hwn i helpu llywio'r modd y byddwn yn arolygu Cymraeg i Oedolion, a chynhelir ein harolygiad peilot cyntaf yn y sector hwn ym mis Ionawr 2018.

**Dysgu oedolion yn y gymuned**

Hefyd, mae newidiadau mewn polisi ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned wedi golygu na chynhaliwyd unrhyw arolygiadau er 2015. Fe wnaethom gynnal arolwg thematig a ddarparodd drosolwg o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru yn ystod 2016. Aethpwyd i'r afael â hyn yn 2017-2018 trwy ymgynghori am drefniadau arolygu yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhwydwaith partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned a Llywodraeth Cymru. O fis Medi 2017, caiff y sector ei adnabod bellach fel dysgu oedolion.

**Addysg bellach**

Yn ystod 2017-2018, fe wnaethom arolygu dau goleg o dan drefniadau arolygu 2015 ac rydym wedi parhau i ymgysylltu â cholegau trwy ein hymweliadau arolygwyr cyswllt yng ngwanwyn 2018.

O haf 2017 ymlaen, rydym wedi bod yn ymgynghori â'r sector addysg bellach ar newidiadau i'n trefniadau arolygu, gan gynnwys rhannu gwybodaeth am ein trefniadau peilot newydd mewn cyfarfodydd Colegau Cymru, fel eu gweithdai llywodraethwyr ym mis Ionawr 2018. Yng ngwanwyn 2018, fe wnaethom hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion o bob un o'r colegau yn y trefniadau newydd a chynnal cynllun peilot â'r rhain mewn un arolygiad coleg ar ddechrau haf 2018.

## Gweithgarwch dilynol arolygu statudol a manylach

Trwy gydol 2017-2018, parhaom i fonitro cynnydd darparwyr y canfuwyd yn ystod eu harolygiad craidd fod angen gweithgarwch arolygu dilynol arnynt.

Mae dau gategori gweithgarwch dilynol statudol ar gyfer ysgolion, sef:

- Mesurau arbennig – y ffurf ddwysaf ar gyfer darparwyr sydd â diffygion sylweddol
- Gwelliant sylweddol – ar gyfer darparwyr sydd â diffygion brys ond sydd â mwy o allu i wella na'r rheiny mewn mesurau arbennig

Yn ogystal â chategorïau statudol, lle mae ein harolygiadau'n nodi bod gan ddarparwr ychydig o ddiffygion pwysig, gan gynnwys mân feysydd i'w gwella mewn arweinyddiaeth, rydym yn eu rhoi mewn categori o'r enw 'Adolygu gan Estyn' (galwyd yn flaenorol yn 'Monitro gan Estyn' ond fe'i newidiwyd fel rhan o TAN o Fedi 2017).

Ar gyfer sectorau ôl-16, mae gennym ddwy lefel o weithgarwch dilynol, sef:

- Ailarolygiad – lle mae gan ddarparwyr ddiffygion brys i fynd i'r afael â nhw
- Adolygu gan Estyn – lle caiff cynnydd darparwyr ei adolygu yn dilyn arolygiadau sy'n nodi ychydig o feysydd pwysig i'w gwella, yn enwedig mewn arweinyddiaeth

Yn 2017-2018, rhoddwyd 25 o ddarparwyr mewn categori statudol, a daeth 17 o'r 44 darparwr a oedd eisoes mewn categori statudol ar ddechrau'r flwyddyn allan o'r categori. Yn yr un modd, aeth 66 o ddarparwyr i gategori monitro/adolygu gan Estyn yn ystod y flwyddyn, a daeth 39 o'r 72 a oedd eisoes yn y categori hwn ar ddechrau'r flwyddyn allan o'r categori.

**Canran y darparwyr a arolygwyd yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt, 2010-2011 i 2017-2018**

| Blwyddyn ariannol | Nifer yr arolygiadau craidd | Nifer a arolygwyd y canfuwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt | Canran y canfuwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt |
|---|---|---|---|
| 2010-2011 | 269 [a] | 51 | 19% |
| 2011-2012 | 445 | 113 | 25% |
| 2012-2013 | 419 | 116 | 28% |
| 2013-2014 | 391 | 128 | 33% |
| 2014-2015 | 409 | 123 | 30% |
| 2015-2016 | 376 | 111 | 29% |
| 2016-2017 | 343 | 79 | 23% |
| 2017-2018 | 345 | 90 | 26% |

a O fis Medi 2010 (dechrau'r cylch newydd o arolygiadau) yn hytrach na mis Ebrill 2010

## **Canran yr arolygiadau craidd Estyn sydd angen gweithgarwch dilynol yn ôl sector** 2015-16 i 2017-18

- Cyfanswm yr arolygiadau craidd (yn cynnwys arolygiadau peilot ar y cyd ag AGC ac arolygiadau peilot o drefniadau arolygu newydd Estyn)
- % y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt
- % y mae angen eu monitro gan Estyn neu eu hadolygu gan Estyn

| Sector | Blwyddyn | Cyfanswm yr arolygiadau craidd | % gweithgarwch dilynol statudol | % monitro / adolygu gan Estyn |
|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 2015 - 2016 | 116 | 1%* | 16% |
| | 2016 - 2017 | 92 | 0% | 10% |
| | 2017 - 2018 | 90 | 0% | 19% |
| Ysgolion cynradd | 2015 - 2016 | 202 | 4% | 26% |
| | 2016 - 2017 | 186 | 4% | 22% |
| | 2017 - 2018 | 196 | 7% | 19% |
| Ysgolion uwchradd | 2015 - 2016 | 35 | 14% | 46% |
| | 2016 - 2017 | 30 | 23% | 20% |
| | 2017 - 2018 | 28 | 21% | 32% |
| Ysgolion pob oed | 2015 - 2016 | 1 | 100% | 0% |
| | 2016 - 2017 | 3 | 0% | 67% |
| | 2017 - 2018 | 3 | 33% | 33% |
| Ysgolion arbennig | 2015 - 2016 | 6 | 33% | 33% |
| | 2016 - 2017 | 7 | 0% | 29% |
| | 2017 - 2018 | 5 | 20% | 20% |

*Nid yw'n gategori gweithgarwch dilynol statudol, ond mae'n adlewyrchu darparwr sy'n achosi pryderon difrifol.

## Canran yr arolygiadau craidd Estyn sydd angen gweithgarwch dilynol yn ôl sector 2015-16 i 2017-18

- Cyfanswm yr arolygiadau craidd (yn cynnwys arolygiadau peilot ar y cyd ag AGC ac arolygiadau peilot o drefniadau arolygu newydd Estyn)
- % y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt
- % y mae angen eu monitro gan Estyn neu eu hadolygu gan Estyn

| Sector | Blwyddyn | Cyfanswm yr arolygiadau craidd | % y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt | % y mae angen eu monitro gan Estyn neu eu hadolygu gan Estyn |
|---|---|---|---|---|
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | 2015 - 2016 | 2 | 100% | 0% |
| | 2016 - 2017 | 5 | 40% | 20% |
| | 2017 - 2018 | 3 | 67% | 33% |
| Ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol | 2015 - 2016 | 7 | n/a | 14% |
| | 2016 - 2017 | 11 | n/a | 18% |
| | 2017 - 2018 | 11 | n/a | 45% |
| Darparwyr ôl-16 | 2015 - 2016 | 6 | 0% | 17% |
| | 2016 - 2017 | 6 | 17%* | 33% |
| | 2017 - 2018 | 9 | n/a | 0% |
| Yr holl arolygiadau | 2015 - 2016 | 376 | 5% | 24% |
| | 2016 - 2017 | 343 | 5% | 18% |
| | 2017 - 2018 | 345 | 7% | 19% |

*Mae'n cynnwys Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

**Astudiaeth achos – arolygiad dilynol**

Ysgol gyfun gymysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yn Nwyrain Caerdydd yw Ysgol Uwchradd y Dwyrain, a agorwyd ym mis Medi 2014. Ffurfiwyd yr ysgol ar ôl cau Ysgol Uwchradd Rhymni ac Ysgol Uwchradd Llanrhymni. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhai ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol sylweddol, ac mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Pan arolygwyr Ysgol Uwchradd y Dwyrain gan Estyn ym mis Rhagfyr 2014, barnwyd bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn anfoddhaol. O ganlyniad, barnwyd bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol. Gwnaeth arolygwyr argymhellion y dylai'r ysgol fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch a diogelu, cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel a gwella safonau, ymddygiad ac ansawdd yr addysgu. Yn ystod y tymor canlynol, ymwelodd arolygwyr â'r ysgol i weithio gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i sicrhau bod cynllun gweithredu ôl-arolygiad addas ar waith. Dros y ddwy flynedd a hanner nesaf, bu tîm o arolygwyr yn monitro cynnydd yr ysgol am ddeuddydd a hanner bob tymor.

Dros gyfnod, sylwodd arolygwyr ar welliannau sylweddol yn ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Aeth arweinyddiaeth gryfach i'r afael â materion diogelu, sefydlodd gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a datblygu diwylliant cryf o fyfyrio ar arfer dda, a rhannu arfer dda. Cafodd amrywiaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhaglen hyfforddi unigol, effaith sylweddol ar ansawdd yr addysgu. Cafodd y gwelliannau mewn addysgu ac arweinyddiaeth effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion a'r safonau yr oeddent yn eu cyflawni. Ym mis Tachwedd 2017, ar ôl wyth ymweliad monitro, barnodd arolygwyr nad oedd angen mesurau arbennig ar yr ysgol mwyach.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau Estyn

Mae hyder rhanddeiliaid yn ansawdd arolygiadau yn bwysig iawn i ni. Yn 2017-2018, fe wnaethom sicrhau ansawdd, dilysu a chymedroli adroddiadau'r holl arolygiadau dan arweiniad Estyn, gan gynnwys craffu ar y dystiolaeth ategol, cyn cytuno ar y canfyddiadau, y barnau a lefel y gweithgarwch dilynol, os oedd ei angen. AEM nad ydynt yn rhan o'r tîm arolygu gwreiddiol sy'n ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer pob arolygiad. Yn ychwanegol, fe wnaethom gynnal ymweliadau sicrhau ansawdd â thua 10% o arolygiadau na chawsant eu harwain gan AEM, yn y sector cynradd a'r sector meithrin nas cynhelir. Hefyd, fe wnaethom ymweld â thua 5% o arolygiadau dan arweiniad AEM fel rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd.

**Yn 2017-2018:**

**Nid oedd angen diwygio'r un o'n hadroddiadau arolygu cyhoeddedig ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her sylweddol i farnau**

**DP**1

**Mynegodd llai nag 1% o ddarparwyr (un darparwr yn unig) eu bod yn anfodlon â dibynadwyedd ac annibyniaeth ein barnau ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu**

**DP**3a

**Mae canlyniadau'r arolygon ôl-arolygiad yn dangos bod llai nag 1% o ddarparwyr wedi mynegi rhywfaint o anghytuno bod darparwyr yn ystyried arolygiadau yn broses gadarnhaol sy'n hyrwyddo gwelliant**

**DP**3b

**Cyhoeddwyd ein holl adroddiadau arolygu mewn modd amserol, ac ni chyhoeddwyd yr un ohonynt y tu allan i derfynau amser statudol / cytûn.**

**DP**4

Dyma ddetholiad o eiriau o ganmol a gawsom gan ddarparwyr yn dilyn arolygiad o dan y trefniadau newydd o fis Medi 2017:

Hoffwn nodi bod y tîm arolygu a ymwelodd â'n hysgol yr wythnos ddiwethaf wedi gwneud argraff fawr arna' i. Roedd [yr arolygwyr] yn hynod broffesiynol ond hefyd yn sensitif i'r ysgol, ei chymuned a'r staff. Roedd yn arolygiad trylwyr iawn ac yn brofiad y gellir ei weld yn rhan annatod o ddatblygiad ein hysgol. Roeddem ni'n teimlo ein bod yn cael ein herio llawer yn yr ysgol, ond mae safon yr arolygwyr wedi gwneud i ni deimlo bod hyn wedi bod yn brofiad hynod gadarnhaol, sy'n atgyfnerthu'r hyn rydym ni'n ei wneud yn dda ond hefyd yn ein tywys yn y camau nesaf i gynnal cynnydd ein hysgolion ar gyfer y dyfodol.

Pennaeth ysgol gynradd

Er bod yr ymweliad yn wythnos ddwys (fel y byddech yn ei ddisgwyl), roeddwn i eisiau diolch i chi a'r tîm arolygu am lunio adroddiad sydd, yn ein barn ni, nid yn unig yn adlewyrchiad cywir o'n hysgol ond wedi nodi enghreifftiau penodol o waith yr ysgol sy'n ei gwneud yn hawdd i'r gymuned gyfan ei hadnabod. Nid yw hyn yn dasg hawdd, ond rydw i'n credu eich bod chi a'r tîm wedi gwneud hyn yn fedrus ac roeddwn am i chi wybod hyn.

Pennaeth ysgol uwchradd

# Amcan Strategol 2:
## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd PAEM ei Adroddiad Blynyddol 2016-2017 ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru; hwn oedd y 25ain adroddiad yn olynol a gyhoeddwyd yng Nghymru ers cyflwyno Deddf Addysg (Ysgolion) 1992.

Mae'r Adroddiad ar y we ac yn hygyrch fel dogfen pdf y gellir ei darllen gan ddarllenwyr sgrin ar-lein. Mae'n cynnwys adrannau sy'n amlinellu themâu ac adroddiadau sector presennol, ac yn darparu adolygiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod cyfnod o saith mlynedd (2010-2017) ein fframwaith arolygu cyffredin.

Rhannwyd canfyddiadau allweddol yr Adroddiad gyda rhanddeiliaid mewn cyfarfodydd fforymau amrywiol, ynghyd â chynhyrchu ffilm ar-lein yn cynnwys PAEM. Defnyddiwyd yr adroddiad i arddangos arfer sy'n ddiddorol, yn arloesol ac yn werth ei hefelychu, a darparu deunyddiau i randdeiliaid i helpu ysgogi gwelliannau yn eu sectorau penodol.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol PAEM ym mis Ionawr 2018, yn unol â'r dyddiad targed yn ein Cynllun Blynyddol 2017-2018

DP5

Yn ystod 2017-2018, cyhoeddom 13 adroddiad thematig ar amrywiaeth o destunau i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys dros 80 o argymhellion, gyda thua chwarter o'r argymhellion hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chamau gweithredu i Lywodraeth Cymru ei hun eu hystyried.

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Adolygiad o addysg perthnasoedd iach | Mehefin 2017 |
| Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Mehefin 2017 |
| Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach | Mehefin 2017 |
| Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach | Mehefin 2017 |
| Gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2 | Gorffennaf 2017 |
| Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru | Gorffennaf 2017 |

| | |
|---|---|
| Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod | Medi 2017 |
| Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 | Medi 2017 |
| Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd | Medi 2017 |
| Arfer dda yn y dyniaethau | Hydref 2017 |
| Dysgu gweithredol a thrwy brofiad | Rhagfyr 2017 |
| Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion | Mawrth 2018 |
| Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog – Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog: Cyfnodau allweddol 2 i 4 | Mawrth 2018 |

Mae enghreifftiau o'r modd y mae ein hadroddiadau thematig yn helpu llywio polisi yn cynnwys:

- AEM yn cyflwyno canfyddiadau'r adroddiad 'Rheoli arian' i'r grŵp cwricwlwm mathemateg a rhifedd, a lywiodd syniadau'r grŵp yn eu datganiadau datblygol ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Lluniwyd yr adroddiad 'Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach' wrth ddatblygu polisi a chyllid LIC trwy'r prosiect Atebion Creadigol i fynd i'r afael â'r galw am Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE)

Cyhoeddwyd pob adroddiad thematig o fewn graddfeydd amser a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru

**DP6**

Derbyniwyd dros 90% o argymhellion a wnaed ar gyfer Llywodraeth Cymru

**DP7**

Yn ystod 2017-2018, parhaom i ddarparu cyngor a chymorth i Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen, gan gynnwys cymryd rhan mewn dros 40 o bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau cynghori. Trwy ein strwythur o arolygwyr arweiniol, parhaom i ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion Cymru a phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys tystiolaeth ar lafar a thystiolaeth ysgrifenedig, er enghraifft i'r: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – ar yr Ymchwiliad i Ddysgu ac Addysg Broffesiynol Athrawon; a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – ar yr Ymchwiliad i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc.

Hefyd, ymatebom i 18 ymgynghoriad ar faterion addysgol yn amrywio o Ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru 2017 i'r Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc.

**Cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm**

Yn ystod y cyfnod 2017-2018, mae cymorth Estyn ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wedi cynnwys:

- cefnogi ysgolion arloesi, cynrychiolwyr consortia a Llywodraeth Cymru gyda thrafodaethau a datblygiadau trwy fynychu cyfarfodydd maes dysgu a phrofiad a digwyddiadau eraill
- darparu dadansoddiad tymhorol i Lywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol am y cryfderau a'r gwendidau mewn ysgolion arloesi wrth iddynt ddatblygu eu darpariaeth gwricwlaidd, darpariaeth ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol a threfniadau dysgu proffesiynol
- cyfrannu at wneud penderfyniadau trwy fynychu ystod o gyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru, fel bwrdd cyflawni gweithredol a bwrdd newid
- amlinellu a thrafod ein cymorth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gyda rhanddeiliaid mewn fforymau rhanddeiliaid a digwyddiadau wedi'u trefnu gan gonsortia rhanbarthol
- datblygu ein cyfathrebu â rhanddeiliaid ymhellach, gan gynnwys ein hymgyrch chwalu'r chwedlau i fynd i'r afael â chamdybiaethau cyffredin am arolygu
- cynnal arolygiadau thematig i arfarnu pynciau neu feysydd dysgu, crynhoi cryfderau a meysydd i'w gwella, rhannu arfer orau a datblygu offer i gefnogi hunanarfarnu

# Cwricwlwm i Gymru

Estyn

## Cefnogaeth Estyn ar gyfer diwygiadau Llywodraeth Cymru i'r cwricwlwm

Mae'r adroddiadau hyn yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm. Wedi'u cyhoeddi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 | Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 | Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 | Ieithoedd Tramor Modern |
| Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 | Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 | Adolygiad o addysg perthnasoedd iach | Gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2 |
| Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru | Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 | Gyrfaoedd | Arfer dda yn y dyniaethau |
| Dysgu gweithredol a thrwy brofiad | Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog | Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed | |
| | Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 | | Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd |

I'w cyhoeddi o haf 2018 ymlaen;

| | | | |
|---|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: Cymhwysedd Digidol | Addysg grefyddol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 | Gwella addysgu a meithrin gallu | Addysgu'r cyrsiau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau |
| Cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau | Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: dysgu proffesiynol | Maes dysgu a phrofiad iechyd a lles | Darpariaeth ADY mewn ysgolion prif ffrwd |
| Gofalwyr ifanc | Cymorth i ddysgwyr sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | Adolygu Safon Uwch – astudiaethau | |

Cofrestrwch yn **www.estyn.llyw.cymru** i gael yr adroddiadau thematig diweddaraf neu dilynwch **@EstynAEM** ar Twitter.

## Datblygu dull cenedlaethol o ran hunanarfarnu ysgolion

Tuag at ddiwedd 2017-2018, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn weithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ddatblygu dull cenedlaethol o hunanarfarnu ysgolion ar gyfer Cymru. Ym mis Mawrth 2018, fe wnaethom ymweld ag OECD i drafod y prosiect a dysgu am dueddiadau mewn hunanarfarnu ysgolion o bob cwr o'r byd, a rhannu'r hyn y mae ein harolygiadau wedi ei ddysgu i ni am hunanarfarnu yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos ag ysgolion ledled Cymru i fwrw ymlaen â'r prosiect yn ystod 2018-2019.

## Ymgynghori ar ad-drefnu ysgolion




Fe wnaethom ymateb i 26 o gynigion i ad-drefnu ysgolion, a daethom i'r casgliad fod pob un ohonynt yn debygol o gynnal neu wella deilliannau addysgol o leiaf.

## Ysgolion annibynnol


Yn ystod 2017-2018, fe wnaethom:

- gynghori Gweinidogion Cymru ar gofrestriad cychwynnol saith ysgol annibynnol newydd
- cynnal tri ymweliad cofrestru dilynol
- cynnal ymweliadau monitro blynyddol ag 15 ysgol annibynnol a saith coleg arbenigol annibynnol
- cynnal ymweliadau ffocysedig â phum ysgol i roi cyngor i Lywodraeth Cymru am agwedd ar eu cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) a oedd yn destun pryder iddynt

## Amcan Strategol 3:
### Meithrin gallu ar gyfer gwella’r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Rydym yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o waith arolygu a gwaith arolwg thematig i helpu llywio ein gwaith meithrin gallu, sy’n cynnwys cynadleddau arfer effeithiol, digwyddiadau rhanddeiliaid a chyhoeddi astudiaethau achos arfer dda ar ein gwefan, yma.

**Astudiaethau achos arfer effeithiol**




Fe wnaethom gynnal 18 o gyfarfodydd fforymau digwyddiadau rhanddeiliaid yn 2017-2018

Cynhaliom 28 o weithgareddau hyfforddi yn gysylltiedig ag arolygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg a hyfforddiant yn 2017-18

Fel partner arweiniol mewn ymdrech genedlaethol i leihau baich gwaith athrawon, cyhoeddom ‘Lleihau baich gwaith – canllaw ar gyfer athrawon a phenaethiaid’

Gall ein rhanddeiliaid a’n gweithwyr addysg proffesiynol weld argymhellion ein hadroddiadau thematig, ein harweiniad a’n hastudiaethau achos trwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo ein hadnoddau trwy gyfryngau cymdeithasol a’n gwefan gan ddefnyddio graffeg a fideos i hybu ymgysylltu a denu sylw penaethiaid ac athrawon prysur a phobl eraill sy’n gweithio ym maes addysg neu hyfforddiant, neu’n ei gefnogi. Ar gyfer un prosiect, fe wnaethom greu cyfres o graffeg gwybodaeth maint cerdyn post o negeseuon allweddol am rôl Estyn mewn diwygio’r cwricwlwm, ac rydym wedi eu dosbarthu trwy ein cynadleddau ein hunain a

chynadleddau ein partneriaid.  Enghraifft arall o'n llwyddiant oedd y prosiect ar y cyd a arweiniom gydag 17 o sefydliadau yn gysylltiedig ag addysg yng Nghymru i leihau baich gwaith athrawon.  Mae'r adnoddau print ac ar-lein hyn wedi cyrraedd pob ysgol yng Nghymru ac yn parhau i fod yn un o'r lawrlwythiadau mwyaf poblogaidd ar ein gwefan hyd at ddiwedd y flwyddyn.  Roedd un o'n hadroddiadau thematig allweddol yn ganllaw ar gyfer ymarferwyr y cyfnod sylfaen ar ddysgu gweithredol a thrwy brofiad.  Ar Twitter yn unig, fe wnaeth yr adroddiad, ynghyd â chyfres o ffilmiau arfer dda, gynhyrchu dros 160,000 o argraffiadau ac fe'i gwelwyd 16,000 o weithiau.

**Arolygwyr cyswllt**

Galluogodd ein system arolygwyr cyswllt ar gyfer addysg bellach, dysgu yn y gwaith, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ni gynnal perthnasoedd gwaith adeiladol gyda darparwyr a rhannu arfer orau lle bo'n berthnasol.  Fe wnaethant ymgysylltu ag amrywiaeth o uwch arweinwyr.  Er enghraifft, bu arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol yn trafod materion gyda phrif swyddogion gweithredol, cyfarwyddwyr, aelodau etholedig a swyddogion craffu er mwyn triongli eu safbwyntiau am effeithiolrwydd gwasanaethau awdurdodau lleol a'u cyflwyno.

Bu ein harolygwyr cyswllt yn trafod ein hadroddiadau thematig yn eu sectorau ac yn cyfarfod ag uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol i'w herio am y modd yr oeddent wedi ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiadau ac wedi ystyried arfer dda.

**Dathlu llwyddiant**

Ym mis Hydref 2017, cynhaliom ein Noson Gwobrau Blynyddol a dathlu llwyddiant 34 o ddarparwyr y barnwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2016-2017 bod eu perfformiad yn 'rhagorol'.  Cyflwynwyd y prif anerchiadau gan Meilyr Rowlands a Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.










**Arolygwyr cymheiriaid**


Parhaodd arolygwyr cymheiriaid (ymarferwyr proffesiynol sydd â rôl reoli mewn ysgol neu ddarparwr ac sydd â phrofiad o addysgu neu hyfforddi yn y sector perthnasol) yn rhan annatod o’n prosesau arolygu o dan ein trefniadau arolygu newydd.

Rydym yn recriwtio a hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ar gyfer pob sector heblaw arolygiadau meithrin nas cynhelir – mae’r ymarferwyr hyn yn parhau i fynegi llawer o barch am yr hyfforddiant hwn ac am eu profiad ar arolygiad, sy’n cael ei ystyried yn ddatblygiad proffesiynol rhagorol ac yn cefnogi gwelliant a wneir yn eu lleoliadau. Yn 2017-2018, fe wnaethom ymestyn yr hyfforddiant a defnyddio arolygwyr cymheiriaid i gynnwys mwy o gymorth i waith arolwg thematig – cafodd 83 o arolygwyr cymheiriaid yr hyfforddiant hwn.

Yn ystod 2017-2018, cafodd dros 300 o arolygwyr cymheiriaid presennol hyfforddiant diweddaru ar y trefniadau arolygu newydd, ac yn ychwanegol:




**Canran y darparwyr sydd ag o leiaf un arolygydd cymheiriaid**




**Rydym wedi coladu adborth o ffurflenni hunanarfarnu arolygwyr cymheiriaid – roedd pob un a oedd wedi ymuno ag arolygiad o dan y TAN yn cytuno bod y profiad yn gadarnhaol, wedi gwella eu datblygiad proffesiynol eu hunain ac wedi cefnogi gwelliant yn eu hysgol neu’u darparwr eu hunain**



# Egwyddor Cyflawni 1:
## Datblygu Estyn yn sefydliad ‘gwerth gorau’ a ‘chyflogwr enghreifftiol’

Trwy gydol 2017-2018, fe wnaethom gynnal ein ffocws ar fod yn sefydliad sy’n cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon sy’n gwerthfawrogi ei staff ac yn cael ei weld yn lle gwych i weithio.  Cyflawnwyd ein camau gweithredu yn unol â’n Cynllun Blynyddol ac rydym yn parhau i gefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

DP16

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Parhaodd ein Grŵp Iechyd, Diogelwch, Lles ac Ymgysylltu i nodi, monitro a gweithredu camau gwella – gan gynnwys y rheiny a godwyd trwy brosesau achredu allanol, fel Buddsoddwyr mewn Pobl. Ailachredwyd y lefel Aur i Estyn ym mis Mai 2018.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddom ein canllaw ‘Gweithio i Estyn’, a oedd yn hyrwyddo’r amrywiaeth eang o fuddiannau sydd ar gael i staff, gan gynnwys mentrau newydd fel ein cynllun ‘beicio i’r gwaith’.

Fe wnaeth canlyniadau ein **Harolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2017** adlewyrchu lefel uchel (a chynyddol) o ymgysylltiad staff, gyda sgorau cynyddol yn erbyn y rhan fwyaf o themâu’r arolwg.

Sgôr ymgysylltiad staff:
78% (cyfartaledd y gwasanaeth sifil oedd 61%)

2il lefel ymgysylltiad uchaf o’r 98 sefydliad yn cwblhau’r arolwg

Gosodwyd o fewn y pedwar sefydliad uchaf o blith yr holl sefydliadau yn cwblhau’r arolwg yn ystod pob un o’r pum mlynedd ddiwethaf

DP9

Gellir gweld manylion llawn am yr arolwg yma.


Dangoswyd ein pryder am iechyd a lles y staff gan ein hachrediad o Lefel Arian y Safon Iechyd Corfforaethol (lefel Efydd y flwyddyn flaenorol).

Trwy gydol 2017-2018, parhaom i: hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau ymwybyddiaeth o iechyd; darparu mynediad at ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion; a chynnig archwiliadau iechyd blynyddol am ddim ar gyfer pob un o'r staff.

## Cydraddoldeb

2017-2018 oedd ail flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2016-2020 a pharhaodd gwaith i sicrhau cydymffurfiad â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

DP18




Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ein hadolygiad blynyddol o Gynllun Strategol Estyn 2016-2020, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2018.

Mae nifer o'n hadolygiadau thematig a'n hastudiaethau arfer orau yn cwmpasu'r modd y gall materion cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithio ar ddysgwyr a'r modd y gall darparwyr fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn, er enghraifft:

- Adolygiad o addysg perthnasoedd iach
- Arloesedd Arfer Effeithiol trwy waith tîm
- Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach
- Sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Safonau'r Gymraeg**

Gwnaethom gynnydd da o ran ein blaenoriaethau ar gyfer 2017-2018 yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cyhoeddi ein Polisi Iaith Gymraeg ym mis Tachwedd 2017
- Diweddaru ein Canllaw Ysgrifennu i adlewyrchu'r trefniadau arolygu newydd – a darparu hyfforddiant i arolygwyr
- Llunio strategaeth sy'n cwmpasu ac yn adlewyrchu holl elfennau'r hyfforddiant Cymraeg

Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant Cymraeg i staff er mwyn datblygu eu medrau iaith a'u gallu yn y Gymraeg yn Estyn. Er enghraifft, mynychodd saith aelod o staff gwrs preswyl am wythnos, am ddim, fel rhan o'r cynllun a lansiwyd yn ddiweddar, sef Cymraeg Gwaith a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ychwanegol, mae pob aelod newydd o staff yn cwblhau 'Cwrs Cyfarch' ar-lein y Ganolfan Genedlaethol a chawsant sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

Bodlonwyd gofynion Safonau'r Gymraeg

DP17

**Sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth**

Fel sefydliad dysgu, rydym yn cymryd sylwadau a chwynion o ddifrif a byddwn yn ymateb yn llawn, yn deg ac mor gyflym â phosibl i gŵynion a cheisiadau am wybodaeth.

Yn 2017-2018:

Gwnaed 4 cwyn gan ddefnyddio ein proses ffurfiol, ac fe gafodd 3 o'r rhain eu cadarnhau'n rhannol, ac ni chadarnhawyd 1 ohonynt.

Ymatebwyd i bob cwyn o fewn terfynau amser targed.

Defnyddiom y wybodaeth am gŵynion i wneud ychydig o fân welliannau i brosesau gweinyddol ac ychwanegu arweiniad ffocysedig fel rhan o hyfforddiant ar gyfer arolygwyr.

Derbyniwyd 10 cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA).

Ymatebwyd i bob cais o fewn y terfyn amser statudol.

Rhyddhawyd gwybodaeth a gadarnhawyd gan Estyn ym mhob achos heblaw un, a oedd yn destun eithriadau Atodlen 33 ac Atodlen 40 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae manylion am geisiadau ac ymatebion o ran y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan, a gellir eu gweld yma.

## Cynaliadwyedd

Fe wnaethom gynnal ein system rheolaeth amgylcheddol a chawsom ein hailachredu gyda 'Safon y Ddraig Werdd' (lefel 3) yn Chwefror 2018. Defnyddiwn y broses achredu i nodi cyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac amlinellwyd y rhain yn ein Polisi a Datganiad Amgylcheddol.

Mae ein heffaith ar yr amgylchedd yn deillio'n bennaf o ddefnyddio ynni a chynhyrchu gwastraff (deunyddiau swyddfa), yn gysylltiedig â'n hadeilad swyddfa ar un safle, a thrwy allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) yn gysylltiedig â theithio pan fydd ein harolygwyr yn ymweld ag ysgolion a darparwyr.

Cyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ yn 2017-2018 oedd 169,737 kg. Er bod hyn yn dangos ychydig o gynnydd o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 168,562 kg, mae'r cyfanswm yn cyd-fynd â'n targed sef 195,327 erbyn 2017-2018.

Yn 2017-2018, fe wnaethom ailgylchu 91% o wastraff, sy'n rhagori ar ein targed, sef 76%.

Gellir gweld perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol ar gyfer 2017-2018 ar ein gwefan yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd 2017-2018.

## Codi arian ar gyfer elusennau

Yn 2017-2018, parhaodd ein staff i fod yn gefnogwyr brwdfrydig i ddigwyddiadau elusennol, gan godi symiau sylweddol o arian ar gyfer nifer o achosion da, gan gynnwys Canolfan Ganser Felindre, y Cyngor Ymchwil Canser a Breast Cancer Care.

Y prif ddigwyddiad codi arian yn ystod y flwyddyn oedd Her Beicio Llwybr Taf i gynorthwyo Tŷ Hafan, a gynhaliwyd ar 3 Medi 2017. Bu pedwar tîm o bedwar o staff o Estyn yn cymryd rhan, a chodwyd dros £4,000.





## Uchafbwyntiau perfformiad ariannol[1]

### Canlyniadau am y flwyddyn

Roedd cyfanswm costau gweithredu net o £10.925m tua 1% yn is na'r flwyddyn flaenorol.  Ac eithrio dibrisiant, roedd gwariant refeniw yn agos at wario'r gyllideb a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru yn llawn.

Er gwaethaf costau ychwanegol yn sgil dyfarniad cyflog staff o 1 Ebrill 2017, a gynhaliodd aliniad rhwng cyflog Estyn a graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru, mae cyfanswm costau staff o £8.18 miliwn yn dangos ychydig bach o ostyngiad yn y lefelau staffio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roeddent yn cyd-fynd â'r dyraniad cyllideb yn ein Cynllun Blynyddol 2017-2018.  Gellir gweld manylion am bolisi cyflogau a chyfraddau cyflog Estyn yn ein Datganiad Polisi Cyflog cyhoeddedig.

Roedd costau heb fod yn gostau staff, sef £2.58 miliwn (ac eithrio dibrisiant), ychydig islaw'r gyllideb a rhyw 3% yn is na'r flwyddyn flaenorol; dangosir y manylion yn Nhabl 4 o'r Nodiadau i'r Cyfrifon.  Roedd y rhan fwyaf o feysydd gwariant yn cyd-fynd yn fras â gwariant y flwyddyn flaenorol; bu cynnydd bach mewn gwariant ar dechnoleg gwybodaeth (TG) er mwyn addasu ein systemau arolygu ar gyfer y trefniadau arolygu newydd, ond bu gostyngiadau hefyd mewn gwariant ar draws yr amrywiaeth o gyllidebau eraill, sy'n adlewyrchu graddau'r amrywioldeb yn ein rhaglen waith o flwyddyn i flwyddyn.  Rhoddwyd terfynau gwariant ar waith i sicrhau ein bod yn aros o fewn cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.


Yn 2017-2018, defnyddiom £59,000 o £281,000 y cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i ni gan Lywodraeth Cymru; defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r gwariant hwn i adnewyddu teleffonau, sy'n hanfodol i gefnogi ein gweithlu symudol o arolygwyr.


Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2018 yn dangos rhwymedigaethau net o £42,000 (2016-2017: £117,000). Mae'r newid yn ymwneud ag effaith net y cynnydd mewn asedau sefydlog a balans y banc, dyledwyr a chroniadau.  Nid yw'n arferol i Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd y lefel uchel o symiau taladwy.  Mae'r symiau taladwy yn ganlyniad arferol trefniadau Estyn i ddarparu arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr lleyg ac arolygwyr ychwanegol (gan gynnwys secondeion) ar gyfer arolygiadau, ac maent yn deillio o amseriad derbyn yr anfoneb.

Mae Estyn yn derbyn swm bach iawn o incwm bob blwyddyn, a'r mwyafrif ohono yw ffioedd ar gyfer cofrestru arolygwyr.


Yn ystod 2018-2019, bydd Estyn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'r rhwymedigaethau uchod yn unol â'r sail 'busnes gweithredol' a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.  Ni chafwyd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2017-2018.  Dangosir costau ar gyfer y Cynllun Gadael yn Gynnar yn wirfoddol ar dudalen 53.  Caiff gwariant Estyn wedi'i gyllidebu ar gyfer y dyfodol ei bennu gan Lywodraeth Cymru, a bydd unrhyw dueddiadau gwariant tymor hir yn cael eu heffeithio gan y cynnydd neu'r gostyngiad yn y gyllideb hon.


[1] Mae Adran 3 yn darparu'r datganiadau ariannol a nodiadau i'r cyfrifon.


Cyfanswm gwariant refeniw 2015-2016, 2016-2017 a 2017-2018
£11.100
£11.000
£10.900
£10.800
£10.700
£10.600
£10.500
£10.400
Gwariant (£000'oedd)
£10.673
£11.059
£10.925
2015 -2016
2016 - 2017
2017-2018
Blwyddyn


Costau staff £8.182 miliwn
Arolygwyr allanol £0.609 miliwn
Teithio a chynhaliaeth £0.601 miliwn
Costau arolygu uniongyrchol £0.112 miliwn
Costau TG £0.534 miliwn
Cyfanswm gwariant Estyn £10.984 miliwn
Cyflenwadau a gwasanaethau £0.310 miliwn
Dibrisiant £0.163 miliwn
Costau a deiladau £0.289 miliwn
Cyfalaf £0.059 miliwn
Costau'r Gymraeg £0.125 miliwn

## Cyfanswm gwariant ar draws yr holl benawdau cyllideb ar gyfer 2017-2018



## Egwyddor Cyflawni 2:

### Cydweithio ag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid i gefnogi gwelliant

**Cydweithio â chyrff Arolygu Cymru**

Trwy gydol y flwyddyn, parhawyd i gydlynu gweithgareddau cynllunio a rhaglennu Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur a oedd yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio.

Yn ystod hydref 2017, fe wnaethom ymgymryd â gweithgarwch arolygu dilynol yn y pedwar consortiwm rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion, gyda chymorth gan arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru lle roedd argymhellion perthnasol.  Buom yn gweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru hefyd i ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL) ac ymunodd eu harolygwyr â'n dau arolygiad peilot yn hydref 2017 a gwanwyn 2018.

Yng ngwanwyn 2018, fe wnaethom ymuno ag arolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau diogelu yn awdurdod lleol Sir Fynwy, ynghyd ag arolygwyr o AGC.

Parhaom i weithio'n agos ag AGC ar gydlynu'n effeithiol arolygiadau o ysgolion a cholegau sydd â darpariaeth breswyl hefyd.  Buom yn gweithio gydag AGC hefyd i barhau i ddatblygu fframwaith arolygu ar y cyd ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

**Meysydd eraill o gydweithio**

Fe wnaethom ymuno â thri arolygiad carchar dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (AEM Carchardai) a buom yn gweithio'n agos ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (AEM Prawf).  Yn benodol, rydym wedi cyfrannu'n agos at ddatblygu'r arweiniad a'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer y ddwy arolygiaeth.  Yn haf 2017, cyhoeddom ein harweiniad newydd ar gyfer arolygu dysgu a medrau mewn carchardai oedolion, sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau a gyhoeddwyd gan AEM Carchardai.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, buom yn gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, lle mae ein meysydd cyfrifoldeb yn gorgyffwrdd, er mwyn rhannu gwybodaeth a nodi achosion pryder.

Hefyd, parhaom i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Chyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru (CGA) ar faterion yn ymwneud â safonau ar gyfer athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru.

Fe wnaethom gyfarfod yn rheolaidd â Chymwysterau Cymru, i drafod materion yn ymwneud â chymwysterau, arolygu a diwygio addysg.  Rydym wedi cydgysylltu'n agos er mwyn rhannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu o ran canfyddiadau ymchwil ar destunau cyffredin ar gyfer ein gwaith arolwg thematig.

Yn ogystal, fe wnaethom gydgysylltu ag Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) o ran statws Ymddiriedaeth Uchel ar gyfer colegau a darparwyr hyfforddiant eraill, a gyda Llywodraeth Cymru a ColegauCymru o ran y rhaglen Atal mewn darparwyr ôl-16.

Trwy gydweithio'n agos â chonsortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, Cyngor y Gweithlu Addysg, undebau sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddatblygu [Canllaw ar gyfer Athrawon a Phenaethiaid ar Leihau Baich Gwaith] a gytunwyd ar y cyd, a sicrhau bod ein harweiniad arolygu yn cefnogi'r ymrwymiad hwn ar y cyd.

Dros y Sulgwyn, fe wnaethom rannu stondin yn Eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd ym Mhencoed, gyda Chymwysterau Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg. Roedd yn gyfle gwych i drafod ein gwaith a'r newidiadau i'n trefniadau arolygu gydag athrawon, rhieni, llywodraethwyr a'u tebyg, yn ogystal ag ennyn diddordeb ymwelwyr mewn dod yn arolygwyr cymheiriaid.

Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom fynychu Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, fel rhan o bresenoldeb ar y cyd â'n partneriaid yn Arolygu Cymru. Yn ystod yr wythnos, cawsom dros 1,000 o sgyrsiau gyda'r cyhoedd ar destunau'n amrywio o'n trefniadau arolygu newydd i holiaduron i rieni ac arolygwyr cymheiriaid.






Trwy gydol 2017-2018, parhaom i fod yn aelod gweithredol o Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), gan gynnwys mynychu gweithdy yn Fienna i gael dealltwriaeth o system addysg Awstria a rôl ei harolygwyr, a gweithdy yn Malta ar hunanarfarnu.

Fe wnaethom fodloni pob cais gan gyrff arolygu, archwilio ac adolygu a sefydliadau addysgol cenedlaethol eraill ar gyfer cydweithio o fewn ein cylch gwaith.

DP19a

Trwy fynychu cyfarfodydd, fforymau a sianeli cyfathrebu eraill, fe wnaethom ymgysylltu â chorff cynrychioliadol o bob sector rydym yn ei arolygu.

DP19b

# Adran 2
## Yr Adroddiad Atebolrwydd



## 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae **Bwrdd Gweithredol**, yn cynnwys aelodau gweithredol (PAEM a chyfarwyddwyr strategol), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEM i arwain a rheoli Estyn.

Mae **Bwrdd Strategaeth**, yn cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol (cyfarwyddwyr anweithredol), yn pennu ac yn monitro ein hagenda strategol. Mae gan y Bwrdd Strategaeth ddau is-bwyllgor: Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn a'r Pwyllgor Cyflogau.

Yn ystod 2017-2018, dechreuwyd elfen ychwanegol o drefniadau rheoli a llywodraethu Estyn, sef y **Pwyllgor Cynghori ar Arolygu a Pholisi** (IPAC). Mae PAEM a holl gyfarwyddwyr Estyn yn mynychu IPAC: ei ddiben yw cefnogi a chynorthwyo PAEM o ran arwain a rheoli gwaith Estyn ar gynghori ar arolygu a pholisi a'i amcanion strategol.

Gellir gweld cofnod llawn o aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd / Pwyllgor Strategaeth ar ein gwefan.

### Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau

Rydym yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Caiff datganiadau eu gwneud hefyd gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n polisi rheoli gwrthdaro posibl.

Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol arall a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Fe wnaeth staff adnewyddu eu hymwybyddiaeth o'u rôl i ddiogelu gwybodaeth drwy gwblhau'r cwrs hyfforddi ar-lein a ddarparwyd trwy Dysgu'r Gwasanaeth Sifil. Hefyd, cafodd yr holl berchnogion asedau gwybodaeth hyfforddiant penodol i baratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2016.

Yn unol ag arfer dda, mae gennym swyddog lefel bwrdd sydd wedi'i ddynodi'n Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a Swyddog Diogelu Data dynodedig sy'n gyfrifol am siarter gwybodaeth Estyn.

Trwy gydol 2017-2018, fe wnaeth ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth fonitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad ac adolygu a diweddaru polisïau o dan ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth i'w gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (2018-2019). Adolygwyd rheolaethau dros brosesau llywodraethu gwybodaeth a pharatoadau ar gyfer GDPR o fewn ein rhaglen archwilio mewnol, a rhoddwyd sicrwyddau priodol i reolwyr ac aelodau o'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

**Polisi talu**

Yn 2017-2018, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.  Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar gyfer Contractau Estyn.

Talwyd yr holl anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod.

DP15a

Talwyd 92.6% o'r anfonebau diamheuol o fewn 10 diwrnod (yn erbyn targed o 95%).

DP15b

**Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu**

O dan Atodlen 6, paragraff 5(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion am yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan Estyn yn ystod y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, sefyllfa ariannol, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifyddu Estyn. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Nghyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

Fel Swyddog Cyfrifyddu, gallaf gadarnhau:

- hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn gwybod amdani
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- bod yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon fel cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'm bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

## Y datganiad llywodraethu

### Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu busnes Estyn. Mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau Estyn yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion **Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2017 (Y Cod),** eu hadlewyrchu yn nhrefniadau llywodraethu Estyn, yng nghyd-destun amgylchiadau Estyn fel adran anweinidogol.

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut mae llywodraethu da wedi'i gynnal yn Estyn ac yn esbonio'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliad a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Estyn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r diagram ar ddiwedd y datganiad hwn yn dangos ystod a lefel y sicrwydd sy'n sail i drefniadau llywodraethu Estyn. Amlinellir datganiad clir o ddiben a gweledigaeth Estyn ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn ac mae'n nodi ei brif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am berfformiad a chyflawniad Estyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

Caiff y gwaith o oruchwylio Estyn ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Yn ystod 2017-2018, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) bob chwarter ac roedd pob un o'r aelodau yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd yn angenrheidiol i un cyfarwyddwr anweithredol ymddiheuro am absenoldeb ar gyfer un o gyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Strategaeth wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a chefnogi gweithrediaeth Estyn. Roedd rhai o'r meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2017-2018 yn cynnwys:

- Cynllun Blynyddol Estyn, gan ymgorffori monitro perfformiad yn erbyn amcanion strategol a thargedau (Dangosyddion Perfformiad Allweddol)
- Adroddiad Blynyddol PAEM
- Effaith diwygio addysg yng nghefnogaeth Cymru ac Estyn i fentrau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm
- Datblygu a gweithredu trefniadau arolygu newydd Estyn

Daw pob cyfarfod i ben gyda hunanarfarniad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod trefniadau Estyn ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2017-2018.

Caiff y cydgysylltiad rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru ar faterion rheolaeth ariannol ac atebolrwydd ei reoli trwy gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng PAEM a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig Llywodraeth Cymru, Andrew Goodall, sef Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol GIG Cymru. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt hwn yn helpu i gynnal annibyniaeth Estyn mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod cysylltiadau agos â'r Adran Addysg a Sgiliau yn parhau i ddatblygu dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol, fel datblygu adolygiadau thematig a gwaith cynghori arall. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu cyfarwyddwyr anweithredol gyda Julie Rogers, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, sy'n cynrychioli Mr Goodall yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Estyn yn Llywodraeth Cymru. Hefyd, cyfrannodd cyfarwyddwyr anweithredol at yr adolygiad annibynnol o Estyn a gynhaliwyd gan yr Athro Graham Donaldson; byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw argymhellion sy'n ymwneud yn benodol â threfniadau llywodraethu.

**Archwilio ac effaith**

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ei gyhoeddi ar wefan Estyn; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2017-2018 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor; mae'r pwyllgor yn fodlon fod trefniadau Estyn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg yn briodol trwy gydol 2017-2018.

Mae RSM dan gontract i Estyn i ddarparu ei wasanaeth archwilio mewnol. Cymeradwyodd ARAC y rhaglen flynyddol o archwiliadau ar gyfer 2017-2018, gan barhau i ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg i sefydlu meysydd ymdriniaeth o fewn rhaglen archwilio tair blynedd a gytunwyd gydag RSM; 2017-2018 oedd trydedd flwyddyn y rhaglen. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac yn yr adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, ystyriwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Cynghorodd yr adroddiad hwn am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i'w hystyried gan aelodau o'r ARAC. Llywiodd y canlyniad o'r ymdriniaeth archwilio mewnol farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith rheolaeth fewnol Estyn; '*mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol'*. O ganlyniad i waith a gwblhawyd gan archwilwyr mewnol Estyn yn ystod 2017-2018, cafwyd adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella - nododd yr adroddiad archwilio mewnol blynyddol, '*Arweiniodd yr holl farnau o'n hadolygiadau eleni at lefelau sicrwydd cadarnhaol*'. Adolygwyd yr holl adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol a'r prif faterion sy'n codi a drafodwyd gan yr ARAC, a oedd yn fodlon fod yr holl gamau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Yn ogystal â'r rhaglen archwilio mewnol yr adroddir amdani yn Nhabl 1 isod, cynhaliodd Archwilio Mewnol raglen o 'hapwiriadau'

cydymffurfio dirybudd a dilysiadau Hawlio Treuliau hefyd - at ei gilydd, tybiwyd bod cydymffurfio yn dda ac ni chodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol yn ystod 2017-2018.

**Tabl 1**
**Rhaglen archwilio mewnol 2017-2018**

| Maes archwilio mewnol | Lefel sicrwydd | Nifer y camau gwella a gytunwyd gan y rheolwyr | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth uchel | Blaenoriaeth ganolig | Blaenoriaeth isel | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Diogelwch | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Trefniadau diogelu | Sylweddol | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Rheolaethau ariannol allweddol: Cyflogres, Credydwyr a Chaffael, Rheolaeth Gyllidebol | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cynllunio strategol a monitro perfformiad | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | | **0** | **0** | **4** | **4** |
| Parodrwydd GDPR (adroddiad cynghori) | 'Mae Estyn yn parhau i gymryd camau i weithredu'r gofynion GDPR yn llawn, ac mae ganddo'r gallu i gwblhau eu cynllun gweithredu allweddol a nodwyd' | | | | |

Cyfarfu Pwyllgor Cyflogau Estyn (lle bu pob aelod yn bresennol) yn ystod 2017-2018, ac ystyriodd yr adolygiad o berfformiad Cyfarwyddwyr Strategol a gynhaliwyd gan PAEM. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor gyngor i PAEM hefyd ynglŷn â lefelau tâl a lwfansau ar gyfer staff Estyn.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae Estyn wedi sicrhau cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a llythyrau presennol Annwyl Swyddog Cyfrifyddu (ASC) yng Nghymru. Mae Estyn wedi cael sicrwyddau a thystiolaeth briodol i gadarnhau bod rhwymedigaethau treth staff nad ydynt ar y gyflogres (Estyn), h.y. yr holl unigolion sydd ar secondiad i swyddi Arolygwyr Ychwanegol yn ystod 2017-18, wedi'u bodloni'n briodol. Trwy gydol y flwyddyn, cyflogodd Estyn nifer fach o staff gweinyddol dros dro drwy asiantaeth gyflogaeth, ac er na thalwyd yr un o'r staff hyn uwchlaw'r trothwy ar gyfer cael sicrwyddau mewn perthynas â bodloni rhwymedigaethau treth, fe wnaeth Estyn sicrhau, serch hynny, y darparwyd y cyfryw sicrwyddau drwy delerau cytundebol.

Mae Estyn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ond yn cynnal ei statws fel corff annibynnol; fel adran anweinidogol, nid yw Estyn yn destun Cyfarwyddiadau gan Weinidogion.

Mae Estyn yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Strategaeth, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill a oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau yn Estyn. Mae cofrestr buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

## Rheoli risg

Mae system rheoli risg Estyn wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion Estyn, ac arfarnu tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hyn a'r effaith pe cânt eu gwireddu. Ar gyfer 2017-2018, parhawyd i gadw cofrestrau risg ar lefel strategol gan y Bwrdd Gweithredol (a'u hadolygu ymhellach yn y Bwrdd Strategaeth), ar lefel gorfforaethol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Estyn, ac ar lefelau gweithredol gan weithgorau, timau swyddogaethol a thimau prosiect. Mae gan bob risg berchennog unigol sy'n gyfrifol am fanylu ar y rheolaethau sydd ar waith a'u cofnodi, ynghyd â chamau gweithredu pellach a gynlluniwyd i liniaru'r risg; hefyd, mae proses gynyddu ar waith i godi risgiau i lefel reolaeth uwch. Mae gofyniad i berchenogion risg ddarparu sicrwydd a thystiolaeth fod rheolaethau allweddol ar gyfer rheoli risgiau ar waith ac yn gweithio'n effeithiol yn ffurfio rhan o'r broses rheoli risg gyffredinol.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2017-2018 a gwblhawyd gan bob un o gyfarwyddwyr Estyn yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2017-2018. Cafodd Estyn sicrwydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwasanaethau cyflogres ac adnoddau dynol y mae'n eu darparu i Estyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.

Dyma rai o'r heriau allweddol yn ystod 2017-2018:

- **Gweithredu prosesau a systemau ar gyfer y trefniadau arolygu newydd o fis Medi 2017**– fe wnaethom fabwysiadu prosesau rheoli prosiect cadarn a defnyddio arolygiadau peilot a 'chynigion' i lywio'r gweithredu. Cryfhawyd ein trefniadau llywodraethu ymhellach trwy sefydlu ein Pwyllgor Arolygu, Polisi a Chyngor, sy'n cynnwys PAEM a'r holl gyfarwyddwyr.
- **Gallu i gefnogi ystod eang o ffrydiau gwaith** – yn fwyaf arwyddocaol, rydym wedi parhau i ddarparu cymorth sylweddol i weithgorau diwygio'r cwricwlwm a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, trwy ein model arweinyddiaeth ddosbarthedig.
- **Cyflawni arbedion effeithlonrwydd parhaus i fodloni gostyngiadau parhaus yn y gyllideb** – datblygwyd mentrau, fel ein fframweithiau arolygu newydd, o dan set o egwyddorion, sydd wedi cynnwys cyfyngiadau cyllidebol.
- **Gwella trefniadau cydweithio** – yn benodol, parhaom i ddatblygu trefniadau gydag AGC ar gyfer arolygiadau ar y cyd o'r Blynyddoedd Cynnar mewn meithrinfeydd nas cynhelir.

Mae'r risg fwyaf arwyddocaol y mae Estyn yn parhau i'w rheoli bob blwyddyn yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau craidd a pharhau i ddarparu cymorth i fentrau diwygio addysg yng nghyd-destun gostyngiadau 'termau real' mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi parhau i weithredu modelau hyblyg ar gyfer darparu adnoddau sy'n ystyried cyfyngiadau presennol o ran costau a sefyllfa sy'n gwaethygu. Yn ystod chwarter olaf 2017-2018, gadawodd pum aelod o Estyn o dan gynllun gadael gwirfoddol (VES), a gymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet; derbyniodd yr ymadawyr hyn daliadau yn seiliedig ar delerau safonol Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil 2010. Bydd y VES yn helpu rheoli'r toriad yng nghyllid Estyn o 2018-2019.

## Rheoli ein cyllideb i gyflawni'r blaenoriaethau yn y cynllun strategol tair blynedd

Caiff ein cynllun strategol tair blynedd, yn cynnwys opsiynau i fodloni toriadau graddfa fach neu raddfa ganolig, ei ail-lunio'n flynyddol a'i fireinio'n rheolaidd yn sgil datblygiadau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategaeth yn adolygu ymagweddau at senarios yn y gyllideb sy'n dod i'r amlwg ac yn asesu opsiynau ac arfarnu effaith.

## Sicrhau bod gennym yr adnoddau o ran pobl i gyflawni ein cynllun

Mae cynlluniau gwaith manwl yn llywio gofynion adnoddau arolygu y dyfodol.

Defnyddir modelau adnodd hyblyg, gan gynnwys Arolygwyr Ychwanegol dan gontract.

## Sicrhau ansawdd ein gwaith

Defnyddiwn arolygwyr profiadol i fonitro cyfran o arolygiadau, yn ogystal ag i sicrhau ansawdd a phrawfddarllen pob adroddiad arolygu a gyhoeddir.

Mae ein rhaglen archwilio mewnol yn canolbwyntio ar feysydd risg allweddol ac yn rhoi sicrwyddau yn erbyn prosesau a systemau allweddol.

## Hyrwyddo ein heffaith ar lunio polisi i'r eithaf

Mae ein cyfarwyddwyr wedi sefydlu cyswllt cadarn gyda chysylltiadau perthnasol yn adrannau Llywodraeth Cymru ac wedi cyfarfod â nhw fel bo'n briodol. Mae trafodaethau'n canolbwyntio ar faterion fel newidiadau i addysg a deddfwriaeth sydd yn yr arfaeth, a nodi cyfleoedd i Estyn lywio polisi.

Mae cysylltiadau sefydledig gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn sicrhau ein bod yn cael gweld adolygiadau a chyhoeddiadau a gomisiynwyd.

## Cynnal parch y cyhoedd a pharch gweithwyr proffesiynol at Estyn


Cadwn sianeli cyfathrebu agored gyda rhanddeiliaid allweddol fel Gweinidogion a Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdodau Lleol ac undebau athrawon.

Mae gennym strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod rhanddeiliaid, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, yn ymwybodol o waith a chyhoeddiadau Estyn.

**Materion llywodraethu arwyddocaol**

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn o ran fframwaith llywodraethu cyffredinol Estyn. Cwmpasodd yr adolygiadau archwilio mewnol feysydd sylweddol o fusnes Estyn, a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth ac ychydig iawn o argymhellion (pedwar argymhelliad blaenoriaeth isel) oedd yn mynnu gweithredu gan y rheolwyr. Rydw i'n falch fod y sefydliad yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella llywodraethu a rheolaethau mewnol. Er enghraifft, rydym wedi gweithredu adroddiadau chwarterol newydd i ARAC ar ystod eang o faterion sicrwydd, gan gynnwys darparu adroddiad penodol ar drefniadau diogeledd seiber.


Yn 2017, llwyddodd Estyn i gynnal ei safle uchel ar y rhestr o sefydliadau sy'n adrodd am lefelau ymgysylltiad staff yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Rydw i'n falch iawn fod canlyniadau'r arolwg yn parhau i ddangos lefelau uchel o ymgysylltiad cadarnhaol gan staff, ac mae hyn yn adlewyrchu diwylliant cadarnhaol a chefnogol yn Estyn, sy'n helpu ategu llywodraethu da ac yn arwydd o ymrwymiad staff i'n gwerthoedd a chod y gwasanaeth sifil. Fel sefydliad dysgu, rydym yn parhau i ddefnyddio canlyniadau'r arolwg hwn ac adolygiadau allanol/prosesau achredu eraill i nodi a bwrw ymlaen â chamau gweithredu ar gyfer gwella.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2018

# Ein fframwaith sicrwydd a chraffu



## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad o ran sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol


Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.  Mae Estyn eisoes wedi lleihau nifer ei swyddi uwch reolwyr o ganlyniad i doriadau i'r gyllideb.


Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran cymhwysedd
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol

Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2017-2018.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2017), dyfarnwyd codiad cyflog cyfunol o 2% i swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Band 1 Estyn yn effeithiol o 1 Ebrill 2017.


Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn ôl categori staff 2016-2017 a 2017-2018
Nifer y staff
60.5
60
59.5
59
58.5
58
57.5
57
56.5
56
59.2
58.4
60.2
57.5
Rheolwyr, Gwasanaethau Corfforaethol a staff Asiantaeth
Adnodd Arolygu (AEM ac Arolygwyr Ychwanegol ar secondiad)
Categori staff
2016-2017
2017-2018


Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi, cyfartaledd ar gyfer 2017-2018
Staff grade
Uwch Wasanaeth Sifil
2.00
1.0
GRADD 6
32.63
26.8
GRADD 6 - Cyfnod Penodedig AY
0.54
1.2
GRADD 6 - Secondai
2.3
GRADD 7
1.00
1.2
Uwch Swyddog Gweithredol
2
Swyddog Gweithredol Uwch
2.00
6.0
Swyddog Gweithredol
5.45
12.4
Swyddog Gweinyddol - Parhaol
2.00
12.5
Swyddog Gweinyddol - Asiantaeth
3.31
1.7
40.0
30.0
20.0
10.0
0.0
10.0
20.0
30.0
Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn
Benyw
Gwryw

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill[2] | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| 2017-2018 | 108.6 | 7.3 | 115.9 |
| 2016-2017 | 103.1 | 16.3 | 119.4 |

**Mae cyfraddau Salwch Staff fel a ganlyn:**

| Prif fesurau staff | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **2017-2018** | **2016-2017** |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 4.7% | 2.7% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 47.7% | 45.5% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 9.7 diwrnod | 5.5 diwrnod |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 10.9 diwrnod | 6.8 diwrnod |
| Achlysuron absenoldeb salwch (newydd) | 114 achlysur | 104 achlysur |

**Cyfanswm cyfradd salwch o 4.7% yn erbyn targed o <4%**
**Roedd dros dri chwarter o absenoldeb o ganlyniad i salwch tymor hir**
**Fe wnaeth nifer y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb ddyblu o gymharu â 2016-2017**
**Collwyd dros 42% o'r holl ddiwrnodau o ganlyniad i diwmorau/canser**
**Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo cyflogeion sydd wedi cael diagnosis â salwch terfynol. Yn drist iawn, bu farw dau aelod o staff yn ystod y flwyddyn**

DP11

**Contractau gwasanaeth**

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Egwyddorion yn gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hwy swyddi penagored. Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

[2] Mae staff eraill yn cyfeirio at secondeion, staff contract cyfnod penodedig a staff asiantaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn:
http://civilservicecommission.independent.gov.uk/

**Tâl (gan gynnwys cyflog), buddion a hawliau pensiwn**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

**Tâl (cyflog, taliadau mewn nwyddau a phensiynau) [3]**

| Swyddogion | 2017-2018 | | | | | 2016-2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog £000 oedd | Tâl am Berfformiad ar Wahân £000 oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000[4] agosaf | Cyfanswm £000 oedd | Cyflog £000 oedd | Tâl am Berfformiad ar Wahân £000 oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfan-swm £000 oedd |
| Meilyr Rowlands Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 110-115 | - | - | 15 | 125-130 | 110-115 | - | - | 72 | 180-185 |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | 80-85 | - | - | 3 | 80-85 | 75-80 | - | - | 12 | 90-95 |
| Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol | 80-85 | - | - | 32 | 110-115 | 75-80 | - | - | 31 | 105 - 110 |
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y Cyflog Uchaf | 110-115 | | | | | 110-115 | | | | |
| Cyfanswm canolrifol | £66,650 | | | | | £63,350 | | | | |
| Cymhareb gan ddefnyddio pwynt canol y band cyflog | 1.69 | | | | | 1.78 | | | | |
| Ystod cyflogau staff | £19,350 - £112,475 | | | | | £17,200 - £110,000 | | | | |

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU.  Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan Estyn ac felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

[3] Archwiliwyd
[4] Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan Estyn ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

| Hawliau pensiwn i uwch reolwyr[5] | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/18 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000oedd** | **Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd** | **Gwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/18 £000oedd** | **Gwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/17 £000oedd** | **Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd** | **Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth £100 agosaf** |
| Meilyr Rowlands<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 55 – 60<br>a chyfandaliad o<br>165 – 170 | 0 – 2.5<br>a chyfandaliad o<br>2.5 - 5 | 1,286 | 1,192 | 15 | - |
| Simon Brown<br>Cyfarwyddwr Strategol | 40 – 45<br>a chyfandaliad o<br>70 – 75 | 0 – 2.5<br>a chyfandaliad o<br>(0 – 2.5) | 933 | 916 | 2 | - |
| Claire Morgan<br>Cyfarwyddwr Strategol | 15 – 20<br>a chyfandaliad o<br>0 | 0 – 2.5<br>a chyfandaliad o<br>0 | 253 | 222 | 18 | - |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif

[5] Archwiliwyd

Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn cynnwys pedair rhan: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn syth cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae buddion yn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae classic plus yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â classic a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn premium. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a'r oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.


**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Iawndal am golli swydd**

**Pecyn Ymadael: Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael**

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | 2 | 2 |
| **£25,000 - £50,000** | - | 2 | 2 |
| **£50,000 - £100,000** | - | 1 | 1 |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | - | 5 | 5 |
| **Cyfanswm costau adnoddau/£000** | - | - | £100 - £150 |



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a’r Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2018

## 2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio

### Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifo a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM, yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg am gyflwr materion Estyn ar 31 Mawrth 2018 ac am ei ofyniad arian net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran y datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rydw i'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydw i wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod tystiolaeth yr archwiliad rydw i wedi'i chael yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol, y mae'r ISAs (UK) yn gofyn i mi adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol:

- lle nad yw defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- lle nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol am allu corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol, a'm hadroddiad fel archwilydd. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am y graddau a nodir yn eglur yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad am sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn sylweddol anghywir ar sail, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gesglais wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adrodd ar ofynion eraill

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnes yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd y Datganiad Llywodraethu yn unol ag arweiniad Trysorlys EM;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad gyda'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Perfformiad a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol wedi cael ei pharatoi yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad gyda'r datganiadau ariannol neu'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;

- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn unol â hynny, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o reolaeth fewnol o'r fath gan fod y Swyddog Cyfrifyddu yn pennu ei bod yn angenrheidiol galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol fel y bo'n berthnasol, a defnyddio sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol oni bai y tybir bod hyn yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd oddi wrth gamddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn unigol neu gyda'i gilydd yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

| | |
|---|---|
| Huw Vaughan Thomas | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 10 Gorffennaf 2018 | CF11 9LJ |

# Adran 3
## Datganiadau ariannol



## Cyfrifon Blynyddol Estyn 2017-2018 (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – IFRS)

### 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | | 2017-2018 | | | 2016-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Cyllideb | Alldro Gwirioneddol | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu â'r Amcan (arbediad)/ dros ben | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | £000's | £000's | £000's | £000's |
| **Adnoddau:** | | | | | |
| Costau staff | 3 | 8,200 | 8,182 | (18) | 8,241 |
| Dibrisiant | 6&7 | 400 | 163 | (237) | 152 |
| Costau eraill | 4 | 2,713 | 2,581 | (132) | 2,667 |
| **Costau Gweithredu Crynswth** | | **11,313** | **10,926** | **(387)** | **11,060** |
| **Incwm gweithredu** | 5 | **-** | **(1)** | **(1)** | **(1)** |
| **Gwariant Gweithredu Net am y Flwyddyn** | | **11,313** | **10,925** | **(388)** | **11,059** |


Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â Chynllun Blynyddol Estyn 2017-2018.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 6 | 149 | | 246 | |
| Asedau anniriaethol | 7 | - | | 7 | |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **149** | | **253** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | 113 | | 150 | |
| Darpariaethau o fewn blwyddyn | | 873 | | 915 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **986** | | **1,065** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **1,135** | | **1,318** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 11 | (963) | | (1,144) | |
| Darpariaethau o fewn blwyddyn | 12 | (59) | | (136) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(1,022)** | | **(1,280)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **113** | | **38** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau: | | | | | |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | | (155) | | | |
| | | | **(155)** | | **(155)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(42)** | | **(117)** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | (42) | | (117) | |
| **Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr** | | | **(42)** | | **(117)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2018

## 3.3 Datganiad o lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017-2018 £000oedd | 2016-2017 £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | (10,925) | (11,059) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | 6 a 7 | | |
| Dibrisiant | | 163 | 152 |
| Costau eraill (darpariaeth) | 12 | - | 136 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | (181) | 202 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | 37 | (35) |
| **Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | |
| Defnydd o ddarpariaeth TAW | | (77) | - |
| Credydwyr cyfalaf | 6 | - | (84) |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(10,983)** | **(10,688)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 6 | (59) | (167) |
| Prynu Asedau Anniriaethol | 7 | - | - |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(59)** | **(167)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| **Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)** | | **11,000** | **11,123** |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | 10 | **(42)** | **268** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 10 | **915** | **647** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 10 | **873** | **915** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| Newidiadau i ecwiti trethdalwyr | 2016-2017 £000oedd | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | (181) |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (11,029) | |
| Tâl Archwilwyr | (30) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2016-2017 | (11,059) | |
| | 11,123 | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | | 64 |
| | | (117) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | |
| | **2017-2018 £000oedd** | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | (117) |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2017-2018** | | |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (10,898) | |
| Tâl Archwilwyr | (27) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2017-2018 | (10,925) | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | 11,000 | |
| | | 75 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **(42)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2017-2018 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2017-18 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, cytunodd Estyn ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg. Caiff gwariant ar wasanaethau, trwyddedau a thanysgrifiadau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol eu trin fel costau o fewn y flwyddyn ariannol y gwneir y taliad ynddi, lle nad yw'r trafodiad unigol yn fwy na £1,000.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Offer TG | 3-5 mlynedd |
| • Dodrefn a Gosodiadau | 5 mlynedd |
| • Offer Swyddfa | 5 mlynedd |
| • Systemau TG | 5 mlynedd |
| • Asedau Anniriaethol | 3 blynedd |

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff

darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor, o fewn blwyddyn a thymor canolig, rhwng dwy a phum mlynedd. Mae'r holl ddarpariaethau yn destun adolygiad blynyddol, i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol a digonol i ariannu'r atebolrwydd penodol yn y dyfodol.

### 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn.

Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 4 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### 1.7 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.10 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2017-2018. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 2 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net yn erbyn cyllid cymeradwy Llywodraeth Cymru

| | Nodyn | Cyllideb 2017-2018 | Alldro 2017-2018 | Alldro o gymharu â'r amcan (arbediad) / dros ben | 2016-2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000 oedd |
| **Alldro Adnoddau** | | 11,313 | 10,925 | (388) | 11,059 |
| **Alldro Cyfalaf** | 6 a 7 | 281 | 59 | (222) | 251 |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | | |
| **Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | | | |
| Dibrisiant | 6 a 7 | (400) | (163) | 237 | (152) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 12 | - | 77 | 77 | - |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau sy'n dderbyniadwy | 9 | - | (37) | (37) | 35 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau sy'n daladwy | 11 | - | 181 | 181 | (202) |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 12 | - | - | - | (136) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **11,194** | **11,042** | **(152)** | **10,855** |

| | Cyfanswm 2017-2018 £000 oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000 oedd | Eraill £000 oedd | 2016-2017 £000 oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5,820 | 5,820 | | 5,610 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 672 | 672 | | 635 |
| Costau pensiwn eraill | 1,270 | 1,270 | | 1,192 |
| **Cyfanswm costau net[6]** | 7,762 | 7,762 | | 7,437 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i mewn [7] | 122 | | 122 | 648 |
| Secondeion allan | (18) | | (18) | - |
| Staff asiantaeth | 140 | | 140 | 139 |
| Costau cyfarwyddwyr anweithredol[8] | 15 | | 15 | 17 |
| Costau ymadael yn gynnar –yn y flwyddyn | 148 | | 148 | - |
| Ardoll Brentisiaethau | 13 | | 13 | - |
| **Cyfanswm** | **8,182** | **7,762** | **420** | **8,241** |

| Taliadau i Gyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2016-2017 a 2017-2018 | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **2017-2018 Cyfanswm £000oedd** | **2016-2017 Cyfanswm £000oedd** |
| J Fabian | 5 | 6 |
| A Thomas | 5 | 5 |
| R Tomos | 5 | 6 |
| **Cyfanswm** | **15** | **17** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2017-2018, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1,270k yn daladwy i'r PCSPS (2016-2017: £1,192k) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2017-18 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

[6] Mae'n cynnwys staff sydd wedi eu penodi am gyfnod penodol a oedd yn cael eu dangos ar wahân yn y gorffennol
[7] Mae'n cynnwys credyd o £77,000 yn 2017-2018 ar gyfer darpariaeth TAW y tybir nad oes ei hangen mwyach
[8] Manylion unigol yn y tabl

## 4 Costau Eraill

| | 2017-2018 £000oedd | 2016-2017 £000oedd |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: adeiladau | 124 | 126 |
| Costau adeiladau eraill | 165 | 224 |
| TG a thelathrebu | 534 | 484 |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | 16 | 16 |
| Teithio a chynhaliaeth | 601 | 636 |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | 27 | 30 |
| Gwariant gweinyddol cyffredinol | 287 | 280 |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| - newid yn y ddarpariaeth ar gyfer adeiladau'n adfeilio | - | - |
| - dibrisiant asedau diriaethol | 156 | 144 |
| - dibrisiant asedau anniriaethol | 7 | 8 |
| | 1,917 | 1,948 |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 5) | (1) | (1) |
| **Isgyfanswm: Costau gweinyddol net** | 1,916 | 1,947 |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | 1 | 4 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | 604 | 697 |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | 218 | 169 |
| Costau'r cylch gwaith | 4 | 1 |
| **Isgyfanswm: Costau rhaglenni** | 827 | 871 |
| **Cyfanswm y costau eraill** | 2,743 | 2,818 |
| **Cyfanswm y Costau eraill heb Incwm a dibrisiant** | 2,581 | 2,667 |

## 5 Incwm

| | 2017-2018 £000oedd | 2016-2017 £000oedd |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| - ffioedd cofrestru | (1) | (1) |
| **Cyfanswm** | **(1)** | **(1)** |

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

## 6 Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Systemau TG £000oedd | Offer TG £000oedd | Dodrefn a gosodiadau £000oedd | Offer swyddfa £000oedd | Cyfan-swm £000 oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 196 | 596 | 287 | 5 | 1084 |
| Ychwanegiadau | - | 59 | - | - | 59 |
| Gwarediadau | - | (103) | - | - | (103) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **196** | **552** | **287** | **5** | **1,040** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 196 | 419 | 218 | 5 | 838 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 138 | 18 | - | 156 |
| Gwarediadau | - | (103) | - | - | (103) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **196** | **454** | **236** | **5** | **891** |
| **Swm i'w gario** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **-** | **98** | **51** | **-** | **149** |
| Ar 1 Ebrill 2017 | **-** | **177** | **69** | **-** | **246** |

## 7 Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd<br>£000oedd | DVD<br>£000oedd | Cyfanswm<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| **Cost ar 1 Ebrill 2017** | 11 | **21** | 32 |
| **Ychwanegiadau** | - | **-** | - |
| **Gwarediadau** | - | **-** | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 11 | **21** | 32 |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **11** | **14** | **25** |
| **Codwyd yn y flwyddyn** | **-** | **7** | **7** |
| **Gwarediadau** | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **11** | **21** | **32** |
| **Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2018** | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **-** | **7** | **7** |

## 8 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog ac arian tramor

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 9 Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

### 9a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31/03/2018 £000oedd | Ar 31/03/2017 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 55 | 27 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 58 | 123 |
| **Cyfanswm** | **113** | **150** |

### 9b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | Ar 31/03/2018 £000oedd | Ar 31/03/2017 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 52 | 26 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 61 | 124 |
| **Cyfanswm** | **113** | **150** |

## 10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2018 £000 oedd | 2017 £000 oedd |
|---|---|---|
| Balans | 915 | 647 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (42) | 268 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 873 | 915 |

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu un cyfrif banc. Mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS, casglu incwm BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balans canlynol ar gael ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2018:

| | Ar 31/03/2018 £000 oedd | Ar 31/03/2017 £000 oedd |
|---|---|---|
| Balans yn NatWest | 873 | 915 |
| | 873 | 915 |

## 11 Masnach a symiau eraill sy'n daladwy

### 11a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31/03/2018 £000 oedd | Ar 31/03/2017 £000 oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Symiau taladwy masnach | 36 | 150 |
| Cyllid y gyflogres | 516 | 416 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 411 | 578 |
| | 963 | 1,144 |

### 11b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | Ar 31/03/2018 £000 oedd | Ar 31/03/2017 £000 oedd |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 200 | 30 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | 134 | 198 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 629 | 916 |
| **Cyfanswm** | 963 | 1,144 |

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles
**TAW:** Rhwymedigaethau sy'n codi o anfonebau a godwyd heb gynnwys TAW a lle gallai TAW fod wedi bod yn gymwys

| Darpariaethau | TAW £000oedd | Adnewyddu adeiladau £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | | | |
| - O fewn blwyddyn | **136** | **-** | **136** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **-** | **155** | **155** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | **-** |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth | **-** | **-** | **-** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **(77)** | **-** | **(77)** |
| Darpariaeth sy'n weddill: | **59** | **155** | **214** |
| - O fewn blwyddyn | **59** | **-** | **59** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **-** | **155** | **155** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | **-** |
| Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2018[9] | **59** | **155** | **214** |

## 13 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2018.

[9] Mae'r ddarpariaeth adeiladau yn cael ei hail-asesu gan syrfëwr proffesiynol bob dwy i dair blynedd

## 14 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

| | 2018 Tir ac Adeiladau £000 oedd | 2017 Tir ac Adeiladau £000 oedd |
|---|---|---|
| Ar 31 Mawrth, roedd Estyn yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod blynyddoedd y dyfodol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben: | | |
| - o fewn blwyddyn | **136** | **136** |
| - rhwng dwy a phum mlynedd[10] | **260** | **396** |
| - ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** |
| | **396** | **532** |

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ond na fydd yn dod i rym hyd nes 1 Ionawr 2019, yn mynnu bod yr holl brydlesi â chyfnod prydles heb fod yn fwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Ni wyddys eto a fydd y safon hon yn cael ei mabwysiadu yn y FReM ond pe bai wedi'i mabwysiadu ar gyfer 2017-2018, byddai cynnydd o £396,000 wedi bod mewn asedau a rhwymedigaethau.

## 15 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2018 (nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2017).

## 16 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar ddiwedd 2017-2018 (nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2017).

## 17 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti sy'n gysylltiedig ag Estyn. Dyma drafodion perthnasol â Llywodraeth Cymru yn ystod 2017-2018:

- cyllid o £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru (£11.123 miliwn 2016-2017)
- fe wnaethom ad-dalu £7.803 miliwn i Lywodraeth Cymru, yn bennaf i ad-dalu cyflogau staff a didyniadau cyfatebol y maent yn eu talu ar ein rhan (£7.395 miliwn yn 2016-2017)
- croniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2018 oedd £16,000 (£4,000 2016-2017)

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

[10] Prydles ar gyfer adeiladau swyddfa

## 18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

# Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AARh | Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio |
| AdAS | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| AEM | Arolygydd Ei Mawrhydi |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ASC | Llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifyddu |
| BACS | System Glirio Awtomataidd y Banciau |
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CCS | Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| CiO | Cymraeg i Oedolion |
| CSOPS | Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill |
| DOG | Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| FReM | Llawlyfr Adrodd Ariannol |
| GALIL | Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol |
| GBS | System Bancio'r Llywodraeth |
| GDPR | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| IPAC | Pwyllgor Cynghori ar Arolygu a Pholisi |
| NED | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| PAEM | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| RhG | Rhyddid Gwybodaeth |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| SICI | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau |
| SSIE | Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| TAW | Treth ar Werth |
| TAN | Trefniadau Arolygu Newydd |
| TEAB | Bwrdd Achredu Addysg Athrawon |
| TRRAB | Bwrdd Cynghori a Recriwtio Athrawon |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| UWS | Uwch Wasanaeth Sifil |
| VES | Cynllun Gadael yn Wirfoddol |